Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu.

Stay Safe. Stay Learning.

# Cameos a syniadau o ysgolion ac UCDau ar barhau â busnes ysgol



# Parhad dysgu

Mae’r ymateb i COVID-19 wedi newid ein bywydau yn sylweddol. Yn y cyd-destun heriol hwn, amharwyd ar y system addysg ond mae’n parhau i fod o bwys canolog.

Yn ystod y cyfnod hwn, pan na all y rhan fwyaf o ddysgwyr fynychu lleoliadau ac ysgolion yn gorfforol, mae Llywodraeth Cymru a’i phartneriaid yn gweithio ar draws y system addysg mewn nifer o ffyrdd i gynnig cymorth i arweinwyr, llywodraethwyr, ymarferwyr, rhieni, gofalwyr a dysgwyr mewn meysydd blaenoriaeth allweddol.

Lansiodd y Gweinidog Addysg raglen ‘Cadw’n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu’ yng Nghymru ar 20 Ebrill i gefnogi gweithwyr proffesiynol ym maes addysg a dysgwyr wrth i ni ymateb i bandemig COVID-19. Fel rhan o’r rhaglen hon mae Estyn wedi gweithio ar y cyd â CCAC a chonsortia gwella ysgolion rhanbarthol, ac wedi datblygu’r cyngor hwn ar gyfer ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) i’w cefnogi i barhau â busnes ysgol/UCD. Nid yw’r ddogfen hon yn statudol.

Mae’r ddogfen hon yn rhan o’r gwaith hwnnw ac mae’n gysylltiedig â’r rhaglen waith parhad dysgu ‘Cadw’n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu’.

Hoffem ddiolch i'r ysgolion a'r Unedau Cyfeirio Disgyblion a gyflenwodd gameos a'r sefydliadau canlynol am eu cyfraniad at ddatblygiad y cyhoeddiad hwn:

- Estyn
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru
- Consortia rhanbarthol
- Awdurdodau esgobaethol yr eglwys.

Am fwy o wybodaeth ewch i
hwb.llyw.cymru/cadwnddiogeldalatiiddysgu

Cefnogir gan
**Lywodraeth Cymru**
Supported by
**Welsh Government**

# Syniadau gan ysgolion ynglŷn â pharhau â chyfarfodydd ac arferion

## Cadw mewn cysylltiad â staff a pharhau â busnes ysgol



**Rhaid i ysgolion ddod o hyd i system sy'n gweithio iddyn nhw a'u staff**

### Ysgol 1

Mae un ysgol uwchradd yn defnyddio briffiau rheolaidd trwy'r e-bost i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff am y sefyllfa sy'n esblygu'n barhaus. Mae staff yn yr ysgol hon yn hoffi cael briffiau rheolaidd. Mae'r ysgol wedi defnyddio'i strwythur rheolwyr llinell i sicrhau bod unigolyn cyswllt ar gyfer pob aelod o staff y gallant droi ato/ati yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud yn sgil Covid-19. Mae'r holl reolwyr llinell yn cysylltu â'r rhai y maent yn rheolwyr llinell arnynt yn rheolaidd, naill ai drwy eu ffonio neu drwy gynadledda o bell. Canolbwyntiodd y cyswllt cychwynnol yn bennaf ar les staff, eu hamgylchiadau personol a'r modd roedd y sefyllfa bresennol yn effeithio arnynt. Defnyddiwyd cyswllt dilynol hefyd fel cyfle i wirio ar les staff, ond canolbwyntiodd hefyd ar yr hyn yr oedd pob aelod o staff yn ei wneud o ran eu gwaith ysgol. Wrth i'r cyfyngiadau symud ymlaen, mae rheolwyr llinell wedi trefnu cyfarfodydd rhithwir ar gyfer grwpiau



hefyd, fel y tîm bugeiliol neu faes dysgu a phrofiad y dyniaethau. Defnyddir y cyfleoedd hyn i ddarparu cymorth ar y cyd i staff, cynllunio gwaith ar gyfer nawr ac yn y tymor hwy, ac i rannu cyfrifoldebau am waith. Mae'r ysgol yn defnyddio'i system arferol ar gyfer cofnodi'r pwyntiau allweddol a'r prif gamau gweithredu o'r cyfarfodydd hyn, ac mae'r rhain yn hygyrch i'r holl unigolion perthnasol.

**Ysgol 2**

Mae uwch arweinwyr mewn ysgol uwchradd arall yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd o bell gydag arweinwyr canol. Wedyn, mae'r arweinwyr canol hyn yn cysylltu ag aelodau o'u timau. Mae'r cyfarfodydd hyn yn canolbwyntio ar les staff, ac fe'u defnyddir i fonitro baich gwaith a chyfleu disgwyliadau. Mewn timau mwy, mae un unigolyn yn gyfrifol am gynllunio a threfnu'r gwaith ar gyfer yr holl ddisgyblion mewn grŵp blwyddyn penodol. Mae hyn wedi helpu lleihau'r baich gwaith. Mae'r ysgol hon yn defnyddio briffiau a dogfennau trwy'r e-bost hefyd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff am ddatblygiadau.

**Ysgol 3**

Mae un ysgol uwchradd yn cyfyngu ar friffiau â phob un o'r staff i un neu ddau friffiad yr wythnos, gan fod staff yn teimlo eu bod yn cael eu gorlethu gan y wybodaeth yr oeddent yn ei chael. Mae'r briffiadau hyn yn eithaf hir ac yn cynnwys yr holl ddolenni sydd eu hangen arnynt at wybodaeth ychwanegol. Roedd staff yn yr ysgol hon yn hoffi cael llai o friffiadau hwy gan eu bod yn gallu eu harbed ac nid oedd rhaid iddynt fwrw golwg trwy nifer o friffiadau i ddod o hyd i ddolenni a gwybodaeth oedd eu hangen arnynt.

**Enghraifft 4**

Mae ychydig o ysgolion cynradd yn defnyddio gwahanol blatfformau ar gyfer cyswllt cymdeithasol a busnes ysgol i gadw'r rhain ar wahân. Mae staff yn teimlo y gallant fynegi rhai o'u hofnau a'u pryderon yn well yn y cyd-destun llai ffurfiol ac mae hyn yn cefnogi eu lles.

**Ysgol 5**

Mae'r pennaeth wedi sefydlu grŵp ar gyfer cyfathrebu ag athrawon a chynorthwywyr addysgu, a grŵp ar wahân ar gyfer cyfathrebu â'r penaethiaid cynradd yn yr awdurdod lleol. Defnyddir y grŵp staff ar gyfer rhoi negeseuon byr i staff, anfonir negeseuon hwy trwy'r e-bost, ac mae pob un o'r staff wedi cael gwybod bod angen iddynt wirio negeseuon e-bost bob dydd, o leiaf. Mae'r ysgol yn defnyddio cyfres o apiau, ac yn defnyddio Hwb yn ogystal ar gyfer llywodraethu, dysgu proffesiynol a dysgu disgyblion.

## Cefnogi lles staff



### Ysgol 1

Mae un ysgol wedi paratoi pecyn lles ar gyfer staff. Roedd staff yn teimlo eu bod yn cael eu gorlethu gan faint o wybodaeth yr oeddent yn ei chael ynghylch lles, felly creodd yr ysgol un adnodd a oedd yn haws i staff ei ddefnyddio.



### Ysgol 2

Mae un ysgol wedi llunio atodiad i'w polisi diogelu ac amddiffyn plant. Mae hyn yn cynnwys arweiniad helaeth a phrotocolau diogelu ar gyfer addysgu a dysgu o bell, er enghraifft i atal rhannu ffeil breifat neu bersonol ar ddamwain, a chynghori i gysylltu trwy eu cyfeiriad e-bost ysgol yn unig, a phlatfformau cyfathrebu wedi eu cymeradwyo gan yr ysgol.

## Cadw mewn cysylltiad â disgyblion



### Ysgol 1

Mae un pennaeth yn anfon bwletin wythnosol trwy'r e-bost at ddisgyblion, ac mae'n bwriadu creu bwletin fideo yn y dyfodol. Nod y bwletin yw cynnal ymdeimlad o gymuned ysgol, i wneud y disgyblion yn ymwybodol bod yr ysgol yn ffynhonnell gymorth iddyn nhw, a galluogi iddynt ddarllen / clywed llais cyfeillgar a chyfarwydd.

### Ysgol 2

Er mwyn cefnogi lles disgyblion, mae un ysgol uwchradd wedi sefydlu ystafelloedd dosbarth rhithwir ar gyfer grwpiau dosbarth, yn ogystal ag ar gyfer dosbarthiadau pwnc. Mae hyn yn golygu y gall pob un o'r disgyblion gysylltu â'u hathro dosbarth a chadw mewn cysylltiad â'u dosbarth. Mae'r ysgol yn paratoi adnoddau lles ar gyfer dosbarthiadau ac fe gaiff y rhain eu rhannu â staff yn wythnosol.

### Ysgol 3

Mae un ysgol gynradd wedi neilltuo aelodau penodol o staff i gadw mewn cysylltiad â theuluoedd sy'n agored i niwed. Mae arweinwyr ac aelodau staff yn cytuno pa mor aml y dylent gysylltu â theuluoedd. Mae hyn yn dibynnu ar amgylchiadau unigol y teulu. Mae staff yn cadw cofnodion o'u cyswllt â theuluoedd sy'n agored i niwed, ac yn rhannu unrhyw bryderon ag arweinydd dynodedig yr ysgol.

### Ysgol 4

Mae gan un ysgol ymagwedd esblygol at gymorth bugeiliol, er enghraifft trwy sesiynau tiwtorial rheolaidd.  Mae'r gwasanaeth cwnsela yn parhau i fod ar gael dros y ffôn neu drwy blatfformau ar-lein.  Mae staff bugeiliol yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd ar-lein i sicrhau bod

disgyblion yn cael y cymorth cywir a'u bod yn cael eu cyfeirio at adnoddau a ffynonellau cymorth perthnasol a allai fod eu hangen.

**Enghraifft 5**



Mae ychydig o ysgolion wedi cyhoeddi canllawiau i staff ynghylch pa apiau y dylent eu defnyddio, a pha rai na ddylent eu defnyddio, a sut dylent gyfathrebu â disgyblion – er enghraifft trwy e-bost ysgol yn unig. Hefyd, maent wedi cyhoeddi canllawiau diogelu ynglŷn â defnyddio unrhyw fideos neu blatfformau dysgu o bell gyda disgyblion.

**Ysgol 6**

Mae ysgol arbennig, sy'n darparu ar gyfer disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol wedi cydnabod yr anhawster y gallai rhieni / gofalwyr ei gael wrth geisio cael eu plentyn i ymgymryd â rhyw fath o ddysgu parhaus. Maent wedi sefydlu system wobrwyo a chyfarfod rheolaidd gyda thiwtor. Mae disgyblion yn cronni pwyntiau os ydynt yn cymryd rhan yn y cyfarfod bob dydd ac yn cwblhau un gweithgaredd. Mae rhieni / gofalwyr a disgyblion wedi ymateb yn gadarnhaol i'r cymorth hwn.

**Ysgol 7**

Mae un ysgol arbennig ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu difrifol a chymhleth yn defnyddio gweithgareddau thema i annog rhieni / gofalwyr i siarad a rhyngweithio â'u plentyn mewn ystod o sefyllfaoedd ymarferol. Newidiwyd y thema ar gyfer yr hanner tymor hwn i "Bodau Dynol Iach" ("Healthy Humans") i helpu disgyblion i ddeall y byd maent yn byw ynddo ar hyn o bryd, a hyrwyddo iechyd a lles sy'n hanfodol bwysig i deuluoedd ar hyn o bryd.

**Unedau cyfeirio disgyblion (UCDau)**

O ganlyniad i wahanol anghenion disgyblion sy'n mynychu UCDau, nid oes dull 'un maint sy'n gweddu i bawb' o gefnogi dysgwyr yn ystod y cyfnod hwn. Mae'n bwysig fod gweithgareddau yn cael eu cynllunio fel eu bod yn parhau i ddiwallu anghenion yr unigolyn. O'r cychwyn, mae'r neges wedi canolbwyntio ar 'roi lles yn gyntaf'. Mae sawl UCD wedi asesu neu raddio risg eu disgyblion, gan edrych ar fregusrwydd, yn cynnwys anghenion cymdeithasol, iechyd meddwl, lles cyffredinol, angen addysgol arbennig ac arddulliau dysgu. Ni all ychydig o UCDau ddibynnu ar blatfform cwbl ddigidol i gyrraedd mwyafrif eu disgyblion, ac nid oeddent eisiau achosi straen neu bwysau ychwanegol arnyn nhw na'u rhieni a'u gofalwyr.

Mae **UCD 1** wedi ceisio cynnal arferion sefydledig, lle bo modd. Bob dydd, mae athrawon yn llwytho dogfen Powerpoint gydag amserlen o'r gweithgareddau dyddiol, gan geisio cadw at weithgareddau sefydledig, lle bo modd. Mae ciwiau gweledol wedi cael eu cynnwys i gynorthwyo darllenwyr sy'n llai abl. Y bwriad yw annog disgyblion i gymryd rhan yn Google Classroom ac ymgyfarwyddo ag ef, gan ei fod yn llwyfan dysgu newydd i'r UCD.

Yn **UCD 2**, trefnwyd gweithgareddau dysgu gan ddefnyddio Hwb. Mae pob maes pwnc wedi sefydlu ystafell Hwb lle caiff gwaith ei lanlwytho. Wedyn, mae disgyblion yn anfon y gwaith


yn ôl trwy'r e-bost. Hyd yma, cyflwynwyd dysgu trwy daflenni gwaith a gweithgareddau, a phan fydd modd, mae disgyblion wedi bod yn parhau â thasgau gwaith cwrs. Wrth symud ymlaen, bydd staff yn llunio gwersi rhithwir wedi'u creu ag Adobe Spark. Bydd pob aelod o staff yn creu fideos gwersi ac yn gosod gwaith o amgylch cynnwys y gwersi hyn.

Defnyddir **UCD 3** fel hyb ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 3 a 4 sydd fel arfer mewn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol neu ddarpariaeth amgen ar draws yr awdurdod lleol, neu sy'n gysylltiedig â gwasanaeth troseddau ieuenctid. Cydnabyddir y byddai'r disgyblion hyn yn elwa ar gymorth wyneb yn wyneb ar gyfer dysgu a'u lles. Asesir risg disgyblion o ran eu bregusrwydd, a chynigir lle iddynt yn yr hyb yn dibynnu ar amgylchiadau. Yn yr hyb, gallant fanteisio ar becyn gwersi a mentora gan staff a thiwtoriaid y gwasanaeth cymorth ieuenctid.

## Profi'r pwls

Mae un ysgol yn defnyddio holiaduron byr ar gyfer disgyblion a staff er mwyn mesur 'pwls lles y gymuned' a nodi unrhyw unigolion sydd angen cymorth ychwanegol. Gofynnwyd i ddisgyblion raddio eu lles ar raddfa o un i 10, ac roedd staff yn  gweithredu ymhellach ar gyfer disgyblion oedd yn adrodd sgôr o bedwar neu lai.

## Cadw mewn cysylltiad â rhieni



Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi meddwl yn dda ynglŷn â sut gall rhieni fanteisio ar gymorth â dysgu eu plentyn gan staff addysgu. Pan fydd athrawon yn gweithio yn yr hyb neu mewn ysgolion unigol, efallai na fyddant ar gael i ymateb i ymholiadau ar-lein neu siarad â rhieni. Mae un ysgol wedi trefnu athrawon dynodedig y gall rhieni disgyblion mewn grwpiau blwyddyn gysylltu â nhw. Gallai'r rhain fod yn gyfuniadau o grwpiau blwyddyn mewn ysgolion

llai. Gofynnwyd i rieni beidio â chysylltu ag athrawon y tu allan i'r diwrnod gwaith, ble bynnag y bo modd.

**Unedau cyfeirio disgyblion (UCDau)**

Mewn un UCD, dyma'r strategaeth gyfathrebu:

- Creu cynllun cyswllt ar gyfer pob disgybl, sy'n cynnwys ffordd o gysylltu, pa mor aml i gysylltu, diwrnodau cyswllt, systemau cofnodi ac adrodd
- Cyfathrebu â rhieni ar amseroedd ac amlder a bennwyd; gofynnwyd i rieni beth oedd yr amser gorau i gysylltu â nhw heb achosi pwysau ychwanegol
- Cadw cofnod cyfathrebu cyfoes ar gyfer disgyblion unigol fel bod staff addysgu eraill yn ymwybodol o'r sefyllfa
- Archwilio a cheisio cadarnhau wrth gyfathrebu â rhieni a yw'r teulu yn iach, a oes unrhyw broblemau o ran iechyd meddwl neu les, p'un a yw eu plentyn yn cwblhau'r gwaith a osodwyd, a ellir cynnig unrhyw gymorth, a ellir darparu gwaith arall
- Cadw mewn cysylltiad i drefnu mynd i nôl gwaith a dosbarthu gwaith yn fwy diogel lle na ellir mynd at blatfformau digidol

## Arferion a gweithdrefnau mewn ysgolion hyb



Mae gan ychydig o ysgolion hyb lawlyfr ar-lein ar gyfer staff, sy'n 'siop un stop' ar gyfer gwybodaeth hanfodol. Gallai gynnwys cyngor am fynd ar y rhyngrwyd yn yr ysgol hyb, llwybrau dianc rhag tân neu ddiogelu. Mae ganddo asesiadau risg a phrotocolau ar gyfer cyfathrebu hefyd. Mae'n atgyfnerthu'r cyngor ar hylendid personol a chadw pellter cymdeithasol. Mae'r llawlyfr ar gael i bob un o'r staff sy'n mynd trwy'r ysgol hyb trwy Hwb.

**Ysgol 1**

Mae’r ysgol yn defnyddio ffurflenni ar-lein ar gyfer dogfennau fel rotâu staffio bob pythefnos. Mae’r pennaeth wedi rhoi arweiniad i staff ar gadw pellter cymdeithasol a gweithdrefnau hylendid. Mae gan yr ysgol 60 aelod o staff, felly nid yw pob un o’r staff wedi cael eu sesiwn gyntaf yn yr ysgol. Felly, mae’r uwch arweinydd sydd ar ddyletswydd bob bore yn rhoi brîff i staff wrth iddynt fynd i mewn i’r adeilad. Mae hyn yn cynnwys darparu dogfennau arferion allweddol sy’n rhoi manylion fel sut mae’r ysgol yn gweithredu, cyngor i’w roi i rieni ynglŷn â pheidio â mynd i mewn i’r adeilad, sut i gadw plant ar wahân, sut i sicrhau bod adnoddau yn lân, a ble mae’r cyfleusterau ystafell ymolchi.

# Syniadau gan ysgolion ynglŷn â llywodraethu

## Ysgol 1



Mae’r corff llywodraethol mewn un ysgol gynradd fawr drefol wedi bod yn rhagweithiol yn gwneud trefniadau i gynorthwyo arweinwyr yr ysgol a pharhau â’u busnes. Mae’r corff llywodraethol wedi adolygu eu Cynllun Brys i ymdrin â’r sefyllfa bresennol hon.

Mae’r ysgol wedi creu tîm arweinyddiaeth corff llywodraethol sy’n cynnwys y cadeirydd a’r is-gadeirydd a chadeiryddion is-bwyllgorau. Mae hyn wedi helpu creu strwythur arwain dosbarthedig o fewn y corff llywodraethol i fynd i’r afael ag unrhyw salwch neu ddiffyg argaeledd posibl. Maent wedi defnyddio arbenigedd unigol a gwybodaeth broffesiynol ei aelodau i helpu arwain eu gwaith a gwneud penderfyniadau. Mae’r grŵp yn gweithredu fel grŵp llywio ar gyfer y corff llywodraethol ac yn cysylltu’n rheolaidd ynghylch materion gweithredol a strategol yr ysgol. Mae’r pennaeth yn cyhoeddi gohebiaeth reolaidd i uwch dîm arweinyddiaeth yr ysgol a’r grŵp corff llywodraethol hwn.

Galwodd cadeirydd y llywodraethwyr gyfarfod rhithwir ar gyfer y corff llywodraethol ychydig o ddiwrnodau ar ôl cau’r ysgol i’r rhan fwyaf o ddisgyblion. Diben y cyfarfod oedd rhoi gwybod i bob un o’r llywodraethwyr am faterion gweithredol yr ysgol, a chymeradwyo dogfennau pwysig, fel polisi diogelu data diweddaraf yr ysgol. Hefyd, bu’r corff llywodraethol yn trafod y ffyrdd y byddent yn parhau i gadw mewn cysylltiad, gan gynnwys trefnu cyfarfodydd rhithwir pellach a threfniadau i gael diweddariadau gan y pennaeth.

Mae cadeirydd y llywodraethwyr yn cyfathrebu’n rheolaidd â’r pennaeth i gefnogi ei lles, a lles aelodau staff eraill a disgyblion, a chynorthwyo â gwneud penderfyniadau. Mae’n ystyried bod hyn yn rhan bwysig o’i rôl yn ystod y cyfnod anodd hwn.

# Syniadau o ysgol fach, wledig



**Ysgol 1**

Cyn cau, fe wnaeth ysgol fach holi rhieni a chanfod bod dyfeisiau a chysylltiad yn y cartref gan bob disgybl, heblaw un. Rhoddodd yr ysgol Chromebook i'r disgybl, gyda gwaith wedi'i lwytho ar ei fwrdd gwaith yn barod fel bod dim angen Wi-Fi. Rhoddwyd eu llyfrau ysgrifennu i bob un o'r disgyblion fynd adref gyda nhw er mwyn eu galluogi i amrywio eu gwaith a pheidio â dibynnu'n ormodol ar Microsoft Office. Mae athrawon yn paratoi digon o waith am bythefnos ar y tro. Mae'r ysgol yn darparu copïau caled i deuluoedd disgyblion pan fydd angen.

Mae staff wedi gweithio mewn rota i alluogi plant gweithwyr allweddol i fynychu ac i ddisgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim gasglu eu prydau. Oherwydd ei lleoliad daearyddol, ni fu'n bosibl cydlynu gwaith gydag ysgolion clwstwr eraill ac ni fyddai hyb yn gyfleus i rieni gweithwyr allweddol nac ar gyfer y rhai sydd angen prydau ysgol am ddim.

Mae absenoldeb staff trwy salwch a hunanynysu wedi bod yn her. Mae'r ysgol wedi rhoi mecanweithiau ar waith i sicrhau bod dau aelod o staff ar gael bob dydd, os bydd angen. Mae'r pennaeth yn cynnal cyfrifoldeb am yr ysgol hyd yn oed wrth weithio o gartref gan fod cyfathrebu â phob un o'r staff yn effeithiol ac yn ymarferol trwy gyfryngau cymdeithasol a negeseuon e-bost.